BWLETIN GWYBODAETH YSGOL BOTWNNOG INFORMATION BULLETIN

Ionawr 2023

www.ysgolbotwnnog.org

YN Y BWLETIN TYMOR YMA

- ✓ DYDDIADAU PWYSIG
- ✓ BLWYDDYN I I- ARHOLIADAU...
- ✓ CEFNOGI EICH PLENTYN
- ✓ PRESENOLDEB
- ✓ TREFNIADAU TYWYDD GARW

... A MWY

NEGES GAN Y PRIFATHRO

Blwyddyn Newydd Dda

Dyma ni ar ddechrau blwyddyn newydd arall - mae hi'n siŵr o fod yn flwyddyn llawn prysurdeb eto eleni. Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu yn yr Eisteddfod ysgol diwedd y tymor diwethaf—braf gweld cymaint o ddisgyblion yn cymryd rhan.

Dymunaf flwyddyn newydd dda a llwyddiannus i bob un ohonoch.

Cofion,

Dylan Minnice (Prifathro)

CYSYLLTU Â'R YSGOL

Os ydych am gysylltu â ni yna gallwch wneud mewn sawl ffordd:

☎ **01758 730220**

pennaeth@botwnnog.ysgoliongwynedd.cymru

neu gan ddefnyddio'r ffurflen ar lein ar ein gwefan **www.ysgolbotwnnog.org/cysylltu.php**

DYDDIADAU GWYLIAU YSGOL

Diwrnod hyfforddiant staff (dim ysgol i ddisgyblion) - **Chwefror 17eg.**

Dyddiadau gwyliau hanner tymor - **Chwefror 18fed—26ain.**

Dyddiadau gwyliau'r Pasg - **Ebrill 1af - Ebrill 17eg**.

Gŵyl y Banc Calan Mai - **DYDD LLUN, Mai'r 1af** .

CYFARFODYDD RHIENI AC ATHRAWON

Tymor diwethaf cynhaliwyd cyfarfod ar-lein i rieni blwyddyn 11 ac un yn yr ysgol ar gyfer blwyddyn 7.

Rydym yn bwriadu cynnal cyfarfodydd rhieni wyneb-i-wyneb yn yr ysgol y tymor yma ar y dyddiadau canlynol:

Blwyddyn 8— Pnawn Mercher, Ionawr 25ain —gallwch nodi os ydych yn bwriadu mynychu ai peidio ar y linc yma

Blwyddyn 11— Mawrth 8fed (yn dilyn y ffug arholiadau a gynhelir yn y bythefnos cyn hanner tymor—Chwefror 6—16)

Byddwn yn cadarnhau dyddiadau cyfarfodydd blynyddoedd 9 a 10 yn agosach i'r amser.

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw bryder yna plis cysylltwch gyda ni.

ADRODDIAD INTERIM

Dylech fod wedi derbyn adroddiad interim diwedd y tymor diwethaf ar e-bost ac ar bapur os oedd eich mab/merch yn bresennol. Os nad ydych yna plis cysylltwch gyda'r swyddfa.

BLWYDDYN 11

Mae trefniadau ar gyfer yr arholiadau TGAU yr Haf yn debygol o fod yn ôl i'r drefn arferol eleni—gyda rhai mân addasiadau mewn rhai pynciau.

ASESIADAU SWYDDOGOL ALLANOL

Bydd disgyblion Blwyddyn 11 yn parhau i gwblhau rhai asesiadau **ALLANOL** (sydd **YN** cyfrif tuag at eu graddau terfynol) ar sawl adeg yn ystod y ddau dymor nesaf.

Byddwn yn rhannu amserlenni unigol ar gyfer arholiadau'r haf unwaith y cawn gadarnhad gan y byrddau arholi.

IONAWR/CHWEFROR - BLWYDDYN 11

Saesneg Iaith (TGAU - Asesiad Llafar Grwp ..... Ionawr 23 & 24
Addysg Gorfforol (TGAU - ymarferol - asesiad terfynol—nofio)..... Ionawr 25
Addysg Gorfforol (TGAU - dyddiad olaf cyflwynol tystiolaeth ar fideo) ..... Ionawr 27
Addysg Gorfforol (TGAU - ymarferol - asesiad terfynol)..... Chwefror 1

MAWRTH/EBRILL - BLWYDDYN 11

Addysg Gorfforol (TGAU - safonwr allanol (i'w gadarnhau)) ..... Mawrth 7
Celf—Arholiad Ymarferol (bydd gwaith paratoi dros y 10 wythnos nesaf yn cyfrif tuag at y marc terfynol) Mawrth 29 a 30
Cymraeg - Llên (Uned 3—Llafar)..... Ebrill 20 (Sylfaenol) /21 (Uwch)
Arholiad ymarferol TGAU Drama..... Mawrth 17
Arholiad Bwyd a Maeth Ymarferol .....(dyddiad i'w gadarnhau)
Ffrangeg—llafar (i'w gadarhau yn derfynol) ..... Ebrill/Mai (dyddiadau i'w cadarnhau)

ASESIADAU DAN REOLAETH *(GWAITH CWRS)*

Mae Asesiadau dan Reolaeth *(gwaith cwrs gynt)* yn bwysig yn y rhan fwyaf o bynciau. Maent yn cyfrif rhwng 20% a 60% o'r marc terfynol ym mron bob pwnc TGAU ac yn 100% o'r asesiad Bagloriaeth. Bydd angen sicrhau fod y rhain i gyd yn cael eu cwblhau i'r safon uchaf posibl i anelu am y graddau uchaf yn y TGAU. Cynhelir rhain drwy gydol blynyddoedd 10 ac 11 mewn amryw o bynciau—o'r wers gyntaf ym mlwyddyn 10 tan mis Mai blwyddyn 11. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn gorfod cael eu cwblhau o fewn hyn a hyn o oriau mewn gwersi dan oruchwyliaeth athro - mae presenoldeb yn y gwersi hyn yn hanfodol, ac os ydy eich mab/merch yn absennol o'r gwersi yna bydd rhaid iddynt ddal i fyny amser cinio neu ar ôl ysgol.

CLWB GWAITH CARTREF

Pob nos Lun a Mercher o 3.30 - 5.00 mae cyfle i ddisgyblion aros yn yr ysgol i gwblhau neu i ddal i fyny gyda gwaith. Bydd aelod o staff cefnodi'r ysgol yno i'w cynorthwyo os ydynt angen.

Gellir trefnu i'ch mab/merch aros yn y Clwb Gwaith Cartref trwy gysylltu â'r ysgol.

BLWYDDYN 11 - Y FLWYDDYN NESAF...

Bydd prosbectws Coleg Meirion-Dwyfor/Menai yn cael ei rannu gyda disgyblion Blwyddyn 11 yn fuan. Bydd cynrychiolydd o'r Coleg yn ymweld â'r Ysgol i drafod gwneud cais ar-lein gyda'r disgyblion a byddant hefyd yn bresennol yn y noson rieni mis Mawrth. Mae gwybodaeth am gyrsiau a sut i wneud cais ar wefan y coleg. Bydd hefyd cyfle i wneud ceisiadau am brentisiaethau.

Yn y cyfamser, os nad ydynt yn siŵr beth yw eu hopsiynau ar ôl gadael ysgol, gallant ofyn am apwyntiad i drafod posibiliadau'r flwyddyn nesaf gyda **Mrs Nia Parry - Ymgynghorydd Gyrfa Cymru'r Ysgol.** Bydd Mrs Parry hefyd yn bresennol yn y cyfarfod rhieni mis Mawrth.

Byddwch yn cael gwybodaeth am ddigwyddiadau agored yng Ngholegau Meirion-Dwyfor a Menai yn uniongyrchol gan y colegau. Mae gwybodaeth am y rhain yn y prosbectws a hefyd ar eu gwefan: www.gllm.ac.uk

BLWYDDYN 10 - ARHOLIADAU ALLANOL

Bydd disgyblion blwyddyn 10 yn sefyll arholiadau allanol mewn rhai pynciau yr haf yma:

- **Gwyddoniaeth** Dwyradd a Thriphlyg (pawb) —3 arholiad (Bioleg, Cemeg, Ffiseg) sy'n cyfrif 15% yr un tuag at y radd derfynol.
- **Llenyddiaeth Gymraeg**—(Setiau 1,2,3) - Arholiad Uned 2—sy'n cyfrif 25% tuag at y radd derfynol.
- **Saesneg Llenyddiaeth** (Setiau 1, 2, 3) - Arholiad Uned 2—sy'n cyfrif 40% tuag at y radd derfynol.
- **Saesneg Iaith** (set 4) - Level Mynediad (cymhwyster lawn)
- **Cymraeg Iaith** (set 4) - Lefel Mynediad (cymhwyster lawn)
- **Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant**- Arholiad (I'w gadarnhau) - 50% o'r asesiad terfynol
- **Hanes** - Grwp Mrs Hughes-Jones (Uned dirwasgiad, rhyfel ac adferiad), Grwp Miss Griffith (Yr Almaen mewn cyfnod o newid) - sy'n cyfrif 25% tuag at y radd derfynol.
- **Astudiaethau Crefyddol** - Uned 1 - sy'n cyfrif 50% tuag at y radd derfynol.

CEFNOGAETH I'CH MAB / MERCH

Yn Ysgol Botwnnog 'rydym yn ymdrechu i roi'r gofal gorau i bob disgybl, ac os yw eich mab / merch yn cael amser anodd neu yn cael trafferthion gyda'u gwaith neu broblemau lles, yna mae gennym nifer o arbenigwyr a all eu helpu:

Mr Aled Williams .....Dirprwy Brifathro / Lles
Mrs Alaw Jones Japheth ..... Lles y Merched
Mr Eurig Davies a Miss Ffion Jones ..... Cyd-gysylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol
Mrs Carol Pilling a Mrs Susan Jones .....Anogwyr Dysgu / Mentoriaid
Ms Bethan Jones.....Nyrs Ysgol
Ms Deneise Jones .....Cwnselydd
Mrs Carys Hughes .....Swyddog Lles Addysg yr Awdurdod

Os hoffech i ni gyfeirio eich mab / merch at un o'r uchod yna cysylltwch â Mr Aled Williams, y Dirprwy Brifathro.

CEFNOGI EICH PLENTYN GYDA GWAITH YSGOL

- Dangoswch ddiddordeb yng ngwaith ysgol eich plentyn a rhowch gefnogaeth yn ôl beth mae o / hi ei angen. Cofiwch fod presenoldeb da yn hanfodol - peidiwch â threfnu gwyliau yn ystod y tymor ysgol.
- Trafodwch beth sydd wedi bod yn mynd ymlaen bob dydd a sut medrwch chi fod o gymorth.
- Edrychwch ar lyfrau eich plentyn i ddod i ddeall pa waith sydd yn cael ei wneud. Helpwch efo'r dysgu trwy holi a chwestiynu am y gwaith.
- Holwch am waith/gwaith cartref eich plentyn a gosod rheolau ynglŷn â'i gwblhau.
- Siaradwch am ddisgwyliadau gyda'ch plentyn, beth mae'n obeithio'i gael fel graddau, a lle hoffai barhau â'i addysg/hyfforddiant. Anogwch eich plentyn i wneud ei orau ac anelu yn uchel.
- Sicrhewch fod eich plentyn gyda lle tawel i wneud gwaith ysgol. Ceisiwch sicrhau nad yw unrhyw beth fel ffôn/cyfrifiadur/teledu yn tarfu ar eich plentyn wrth wneud gwaith ysgol.
- Helpwch eich plentyn i drefnu'r gwaith gan roi digon o amser i baratoi at brofion ac arholiadau.
- Dewch i ddeall pwysigrwydd asesiadau dan reolaeth ac arholiadau i strwythur y cyrsiau TGAU. Gwnewch yn saff eich bod yn gwybod pa bryd mae profion, asesiadau ac arholiadau pwysig. Byddwn yn eich hysbysu drwy'r bwletin yma a thrwy e-byst.
- Dewch i gyfarfodydd rhieni i drafod gwaith eich plentyn gyda'r athrawon.
- Os nad ydych yn sicr am unrhyw beth, neu angen cyngor cysylltwch â'r ysgol i siarad efo Mr Dylan Minnice neu Mr Aled Williams.

GWISG YSGOL

Diolch am eich cefnogaeth gyda'r wisg ysgol.

Hoffwn eich atgoffa **NAD** ydi leggings, jeggings, trwsys combat na thrwsus siwt trac yn dderbyniol—caniateir trwsus du plaen yn unig (gan gynnwys jeans du)

Mae siop Tenovus ym Mhwllheli yn falch o dderbyn unrhyw eitemau gwisg ysgol sydd mewn cyflwr da er mwyn eu gwerthu ymlaen.

Mae stoc o ddillad ysgol gyda'r bathodyn swyddogol ar gael i'w prynu o'r swyddfa.

DILLAD COLL

Mae pentwr o ddillad wedi eu gadael ar ôl yn yr ysgol yn ystod y tymor diwethaf—maent ar gael yng ngwaelod y neuadd i wirio os oes eitem coll yno. Byddwn yn pasio unrhyw ddillad sydd heb eu casglu i elusennau lleol ar ddiwedd yr wythnos yma.

Os oes gennych broblem o ran gallu prynu'r wisg ysgol yna plis cysylltwch gyda ni i drafod.

PRESENOLDEB

Mae presenoldeb da yn parhau yn flaenoriaeth yn yr Ysgol. Er gwaetha'r sefyllfa gyda chymaint o afiechydon yn y gymuned mae presenoldeb y mwyafrif o'n disgyblion ni'n parhau i fod yn dda. Mae presenoldeb y mwyafrif o ddisgyblion dros 90% gyda 30% o'r disgyblion gyda phresenelodeb dros 95%.

PRYD DDYLWN GADW FY MHLENTYN ADREF?

"Mae arbenigwyr Iechyd Cyhoeddus yn atgoffa rhieni yng Nghymru i gadw plant i ffwrdd o'r ysgol os ydynt yn sâl gyda gwres, yn dilyn cynnydd mewn salwch fel ffliw. Mae'n un o nifer o gamau syml y gall rhieni eu cymryd i amddiffyn eu plentyn a lleihau lledaeniad salwch y gaeaf pan fydd plant yn dychwelyd i'r ysgol a meithrinfeydd yng Nghymru'r wythnos nesaf.

Mae Ffliw a Covid-19 yn lledaenu ar lefelau uchel ar hyn o bryd ac mae cynnydd mewn achosion o'r dwymyn goch hefyd yn cael ei nodi. Dylai plant sy'n sâl gyda thwymyn aros gartref nes eu bod yn teimlo'n well ac mae'r gwres ar ben. Mae gwres yn dymheredd uchel.

Meddai Dr Graham Brown, Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru; "Mae hefyd yn bwysig atgoffa plant am bwysigrwydd golchi eu dwylo i osgoi lledaenu germau a dal peswch a thisian mewn hancesi papur." Canllawiau llawn i'w cael ar y linc yma.

CAIS AM WYLIAU TEULU YN YSTOD Y TYMOR

Er mwyn i ni allu awdurdodi unrhyw wyliau yn ystod y tymor ysgol mae'n rhaid i rieni wneud **cais ysgrifenedig drwy lythyr/ebost i'r ysgol cyn mynd ar wyliau**.

Mae gan Corff Llywodraethu'r Ysgol ddisgresiwn sydd wedi ei ddirprwyo ganddynt i'r Tîm Rheoli i awdurdodi gwyliau ai peidio. Bydd hyn yn dibynnu ar hyd y gwyliau ac unrhyw wyliau blaenorol, cyfradd presenoldeb cyfredol y disgybl, yr adeg o'r flwyddyn ac effaith ar ddilyniant addysgol y disgybl, os yw'n tarfu ar asesiadau / arholiadau. Ni fyddwn yn awdurdodi mwy na 5 diwrnod o wyliau mewn unrhyw flwyddyn ysgol i ddisgyblion blynyddoedd 7 - 9.

Os na fyddwn yn gallu awdurdodi gwyliau o flaen llaw bydd yn ymddangos fel absenoldeb anawdurdodedig ar record y disgybl.

NI CHAWN AWDURDODI ABSENOLDEB GWYLIAU YN YSTOD Y TYMOR I DDISGYBLION BLYNYDDOEDD 10 AC 11 GAN EI FOD YN ANORFOD AM GAEL EFFAITH AR GYNNYDD EICH MAB/MERCH, ONI BAI BOD YNA AMGYLCHIADAU EITHRIADOL IAWN.

ABSENOLDEB - TREFN CYSYLLTU

Er mwyn sicrhau fod pawb sydd i fod yn yr ysgol yn bresennol gofynnwn i chi gysylltu â'r ysgol ar fore unrhyw absenoldeb fel ein bod yn gwybod os yw eich mab/merch i fod yma ai peidio.

Gofynnwn i chi adael i ni wybod os yw eich mab / merch yn absennol drwy ffonio 01758 730220 rhwng 8:15 a 9:15.

Os na fydd yr ysgol wedi derbyn galwad ffôn erbyn 9:15 o'r gloch yn dweud wrthym pam nad yw eich plentyn yn yr ysgol, yna byddwn yn cysylltu gyda'r cartref neu'r man gwaith.

TYWYDD GARW A CHAU'R YSGOL

Os cyfyd sefyllfa pan fo rhaid cau'r ysgol oherwydd rhesymau tu allan i'n rheolaeth - tywydd, dim trydan neu ddŵr, ac yn y blaen; byddwn yn ceisio gyrru neges destun i'r cartref i'ch hysbysu. Gallwn yrru neges i bob cartref o fewn munudau i'ch hysbysu - cyn belled fod gennym rif ffôn symudol a chyfeiriad e-bost dilys. Byddwn hefyd yn rhoi cyhoeddiad ar Radio Cymru yn y bore ac ar wefan y Cyngor - www.gwynedd.gov.uk

Os oes rhaid cau'r ysgol yn ystod y dydd a bod angen anfon y plant gartref oherwydd ystyriaethau iechyd a diogelwch byddwn yn dilyn y gweithdrefnau hyn:

- bydd y disgyblion yn mynd adref ar y bws arferol (os mai felly maent yn dod i'r ysgol)—ni alant deithio ar fws gwahanol,
- dylent fynd i'w cartrefi neu i dŷ perthynas neu ffrind (yn ôl eich cyfarwyddyd chi fel rhieni).